

PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Chwefror, 2022

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, R. Crowley, V.P. Driscoll, O. Griffiths, M.J.G. Morgan, J.M. Norman, R. Nugent-Finn a S.T. Wiliam.

835 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

836 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr K.F. McCaffer, A. Moore a M.R. Wilkinson

837 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

838 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

839 ADOLYGU GWEITHDREFN GWRANDAWIAD IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (CAT) -

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer newidiadau arfaethedig i'r weithdrefn ar gyfer Gwrandawiaidau'r Is-bwyllgor Trwyddedu.

Roedd y newidiadau'n adlewyrchu arfer cyffredin ar draws Awdurdodau Lleol mewn perthynas â sut y cafodd penderfyniadau a rhesymau'r Is-bwyllgorau eu cyfleu gydag Ymgeiswyr yn dilyn eu gwrandawiaidau.

No.

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu digwyddiad Cynhadledd Hyfforddi'r Sefydliad Trwyddedu ym mis Tachwedd 2021 ac ar ôl codi'r mater gyda Swyddogion, cafwyd trafodaeth ynghylch arfer gorau o'r ffordd y cafodd penderfyniadau a rhesymau eu cyfleu i ymgeiswyr. Nododd y Pwyllgor y gellid dal i ddweud penderfyniadau mewn unrhyw gyfarfod penodol lle bo hynny'n berthnasol, ond gellid cyfleu'r penderfyniad a'r rhesymau hefyd o fewn pum diwrnod gwaith.

Gofynnodd y Cynghorydd J.M. Norman a allai gyrywyr tacsï trwyddedig a gafodd eu hatal rhag dal trwydded yrru dros y cyfnod hwnnw o bum niwrnod neu a fyddai'n cael eu hatal ar unwaith. Cadarnhaodd y Prif Gyfreithiwr fod gan yr Awdurdod ddarpariaeth ar yr achlysur prin a oedd yn achos i'w ystyried i ddirymu trwydded ar unwaith.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe'i

PENDERFYNWYD – DYLID cymeradwyo'r gweithdrefn ddiwygiedig ar gyfer gwrandawiadau Is-bwyllgorau Trwyddedu (ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad).

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael canllawiau gweithdrefnol cywir a chyfredol cyn eu gwrandawiadau.